

# Dyfodol Rhuthun

## Gweledigaeth ar gyfer y dref, ei Phobl a'i Photensial

# Ruthin Future

## A vision for the town, it's people and potential

Awdur yr adroddiad - report authored by:
Dr. Matthew Jones
Partner, CoombsJones

Partneriaid y prosiect::
Project partners:

CYNGOR Sir Ddinbych
Denbighshire COUNTY COUNCIL

COOMBSJONES
architects+makers

Argraffu wedi'i gefnogi gan
Publication supported by
Bro Rhuthun & Ivor Williams
Trailers Ltd

# Cynnwys

# Contents


| Cymraeg | English | Page |
| --- | --- | --- |
| **Cyflwyniad** | **Introduction** | 4 |
| Cyd-destun polisi newidiol | A changing policy context | 5 |
| **Rhuthun 2018: Y dref heddiw** | **Ruthin 2018: The town today** | 7 |
| Beth sydd wedi newid ers 2011? | What has changed since 2011? | 9 |
| Polisi cynllunio a dadansoddiad ystadegol | Planning policy & statistical analysis | 11 |
| Cyfnerthu asedau | Consolidation of assets | 13 |
| Teithio llesol | Active travel | 15 |
| Yr hyn ddywedasoch chi wrthym ni | What you told us | 17 |
| **Rhuthun 2028: Ystyried yr hyn sy’n bosibl** | **Ruthin 2028: Exploring what is possible** | 21 |
| Egwyddorion arweiniol | Guiding principles | 23 |
| Gweledigaeth ar gyfer Rhuthun | A vision for Ruthin | 25 |
| Creu calon Rhuthun | Create a heart to Ruthin | 27 |
| Cysylltu’r gwagleoedd gwyrdd | Connect green spaces | 37 |
| Byw’n dda yng nghanol y dref | Living well in the town centre | 45 |
| **Y Camau nesaf: Gwneud iddo ddigwydd** | **Next steps: Making it happen** | 51 |
| **Atodiadau** | **Appendices** | 53 |
| Rhaglen Wythnos Dyfodol Rhuthun | Ruthin Future Week Programme | 56 |
| Sylwadau ar y model 3D | Comments placed on the 3D model | 59 |
| Adroddiad Uwchgynhadledd Dyfodol Rhuthun | Ruthin Future Summit Report | 63 |

# Cyflwyniad

**Mae'r ymchwil a wnaed ar gyfer yr atodiad hwn at gynllun 'Rhuthun: Tref Farchnad y Dyfodol' 2012 yn anelu at adolygu cynnydd y cynllun a'i ddiweddaru gan gyfeirio at y tirlun polisi sy'n newid yng Nghymru a phrosiectau a gyflawnwyd yn y dref ers 2012.**

Mae canllawiau'n awgrymu y dylid adolygu cynllun yn ffurfiol ar ôl pum mlynedd, gan wneud nawr yn adeg ddelfrydol i ail-edrych ar y prosiect. Er bod llawer o'r ymchwil gwreiddiol a gyflwynwyd yn nogfen 2012 yn parhau i fod yn berthnasol, mae'r ddogfen hon yn adolygu agweddau sydd wedi newid ac yn mynd i'r afael â rhai diffygion yn y ddogfen wreiddiol. Roedd y prosiect yn cy-nnwys dau gam:

Cam 1: Adolygu'r cynnydd
Adolygu cynllun y dref yn erbyn fframweithiau polisi cyfredol
Adolygu prosiectau a gyflwynwyd yn y dref ers 2012 a phrosiectau posibl yn y dyfodol yn y dref

Cam 2: Atodiad i'r cynllun tref
Ymgysylltu â thrigolion wrth ddatblygu'r cynllun trwy ail Wythnos Dyfodol Rhuthun
Creu atodiad i ddogfen cynllun y dref i adlewyrchu dyheadau, heriau a chyfleoedd newydd
Cynhyrchu dogfen atodiad

Mae'r adroddiad hwn i'w ddarllen ar y cyd â'r adroddiad gwreiddiol 'Rhuthun: Tref Farchnad y Dyfodol'. Mae'r wybodaeth yn yr atodiad hwn yn ategu'r ddogfen wreiddiol ac yn amlinellu'r cynnydd bum mlynedd yn ddiweddarach.

# Introduction

**The research carried out for this addendum to the 2012 'Ruthin: Market Town of the Future' town plan aims to review the progress of the plan and update it with reference to the changing policy landscape in Wales and projects undertaken and delivered in the town since 2012.**

Guidance suggests a plan should be reviewed formally after five years, making this an ideal point to revisit the project. While much of the original research presented in the 2012 document remains relevant, this document revisits aspects that have changed and addresses some shortcomings in the original document. The project consisted of two stages:

Stage 1 : Review of progress
Review of the town plan against current policy frameworks
Review projects undertaken in the town since 2012 and potential future projects emerging in the town

Stage 2 : Addendum to the town plan
To engage residents in the development of the plan through a second Ruthin Future Week
Create an addendum to the town plan document to reflect new aspirations, challenges and opportunities.
Production of addendum document

This report is to be read in conjunction with the original 'Ruthin: Market Town of the Future' report. The information in this addendum supplements the original document and charts in progress five years on.

# Cyd-destun polisi newidiol

Ers 2012 mae'r cyd-destun polisi yng Nghymru wedi newid yn ddramatig. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cym-ru) 2015 wedi ymrwymo awdurdodau lleol i wella lles cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn cyflwyno saith nod llesiant, gan greu gweledigaeth ar y cyd i gyrff cyhoeddus weithio tuag at gefnogi unigolion a chymunedau i gynnal a gwella eu hiechyd a'u lles. Mae'r pum 'Ffordd o Weithio' a amlinellir yn y Ddeddf yn annog in-tegreiddio, cydweithio a chynnwys a gosod lles wrth wraidd polisi adfywio.

Ochr yn ochr â'r polisïau strategol hyn, nod y Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol (2015) yw ymgysylltu ymhellach â phobl leol i ddylanwadu ar ddyfodol eu hamgylchedd adeiledig trwy ddatblygu 'Cynlluniau Bro', a arweinir ac a anogir gan gymunedau lleol a'u mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol. Mae Polisi Cynllunio Llywodraeth Cymru yn nodi:

'Mae defnydd dethol o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn fodd o osod canllawiau thematig neu ganllawiau penodol i safle manylach ar y modd y mae polisïau Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i'w dehongli a'u cymhwyso mewn amgylchiadau neu ardaloedd penodol'
(Llywodraeth Cymru, 2015 t.21).

Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r prosiect hwn ac mae'n cynnig llwybr i roi rôl statudol i gynllun y dref yn y polisi cynllunio. Mae'r tabl isod yn awgrymu llwybr ar gyfer cyflawni hyn.

# A changing policy context

Since 2012 the Welsh policy context in which the town plan is situated has changed dramatically. The Planning (Wales) Act 2015, the Active Travel (Wales) Act 2013 and the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 have committed local authorities to improving social, economic, cultural and environmental well-being. The Future Generations Act introduces seven well-being goals, creating a shared vision for public bodies to work towards to support individuals and communities to sustain and improve their health and well-being. The five 'Ways of Working' outlined in the Act encourage integration, collaboration and involvement and place well-being at the heart of regeneration policy.

Alongside these strategic policies, the Positive Planning Implementation Plan (2015) aims to further engage local people in influencing the future of their built environment through the development of 'Place Plans', led and authored by local communities and adopted as Supplementary Planning Guidance. Welsh Government's Planning Policy Wales states that:

*'Selective use of Supplementary Planning Guidance (SPG) is a means of setting out more detailed thematic or site specific guidance on the way in which the policies of a Local Development Plan (LDP) are to be interpreted and applied in particular circumstances or areas'*
(Welsh Government, 2015 p.21).

This is of particular relevance to this project and offers a route to give the town plan a statutory role in planning policy. The table below gives a suggested route map to achieving this.

| Camau'r broses<br>Stages of the process | Camau gweithredu | Actions |
|---|---|---|
| Dechrau arni<br>Getting Started | Sefydlu tîm Cynllun Bro<br>Ffurfio perthynas gyda'r awdurdod lleol | Set up a place plan team<br>Form a relationship with the local authority |
| Casglu tystiolaeth<br>Gathering evidence | Cynnal arolwg o adeiladau'r dref a dadansoddi'r dref fel y mae ar hyn o bryd | Carry out evidence building and analysis of the town as existing |
| Gwerthuso'r dystiolaeth<br>Evaluating the evidence | Cyflwyno'r canfyddiadau<br>Ymgysylltu â'r gymuned ehangach | Drawing out findings<br>Engaging the wider community |
| Ysgrifennu cynllun<br>Writing a plan | Paratoi gweledigaeth a chynllun<br>Gweithio gyda'r awdurdod lleol<br>Datblygu fframwaith cyflawni | Prepare a vision and plan<br>Work with the local authority<br>Developing a delivery framework |
| Cytuno a gweithredu'r cynl-lun<br>Agreeing and implementing a plan | Cytuno ar gynllun gweithredu<br>Sicrhau cytundeb rhanddeiliaid<br>Cytuno ar y cynllun fel Canllawiau Cynllunio Atodol gyda'r Awdurdod Lleol<br>Monitro ac adolygu cyfnodol | Agree action plan<br>Stakeholder agreement<br>Agree the plan as Supplementary Planning Guidance with the Local Authority<br>Monitor and periodic review |